Rhif: WG50651

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

## Bil Seilwaith (Cymru)

## Gofynion ar gyfer ymgynghori cyn ymgeisio a dulliau o ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau lleol

Medi 2024

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83625-634-8

# Tabl Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 1 |
| 2. | Ymatebion | 3 |
| 3. | Crynodeb o'r ymatebion | 5 |

## Cyflwyniad

1. Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori '*Bil Seilwaith (Cymru) – Gofynion ar gyfer ymgynghori cyn ymgeisio a dulliau o ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau lleol*' ar 13 Mai 2024 ac roedd ar agor i ymatebion tan 22 Gorffennaf 2024.

2. Roedd pedwar cwestiwn penodol yn y ddogfen ymgynghori, a darparwyd ffurflen safonol er mwyn hwyluso'r broses ymateb. Gwnaed sylwadau y tu allan i'r cwestiynau safonol hefyd.

3. Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ymateb Llywodraeth Cymru a'r camau nesaf. Mae wedi'i rhannu'n ddwy adran bellach.

4. Mae adran 2 yn rhoi crynodeb ystadegol cyffredinol o'r ymgynghoriad ynghyd â manylion am y ffordd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad.

5. Mae adran 3 yn rhoi crynodeb o'r holl ymatebion a gafwyd. Mae hyn yn cynnwys:

   - Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol o dan bob cwestiwn yn yr ymgynghoriad;
   - Dadansoddiad ystadegol o'r safbwyntiau a fynegwyd ar bob cwestiwn yn yr ymgynghoriad, lle y bu modd llunio ystadegau;
   - Crynodeb a dadansoddiad o'r prif themâu a gododd ym mhob cwestiwn;
   - Ymateb Llywodraeth Cymru i'r dadansoddiad hwnnw;
   - Esboniad o'r hyn y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn dilyn yr ymateb i bob cwestiwn.

6. Wrth ystyried yr ymatebion, rydym yn cydnabod bod nifer o'r rhain wedi cynnig ymatebion emosiynol ar gynlluniau unigol ac effeithiau personol neu gymunedol. Fodd bynnag, wrth ddadansoddi a chrynhoi'r ymateb i'r ymgynghoriad hwn, ni fydd yr adroddiad hwn yn ymdrin â'r canlynol:

   - **Ceisiadau am eglurder ynghylch materion manwl:** Cynhelir ymgynghoriad arall yn fuan lle rhoddir eglurder pellach. Pan ddaw'r broses newydd i rym, y bwriad yw y caiff ei hategu gan ganllaw. Bydd y canllaw hwnnw hefyd yn egluro materion manwl a godwyd fel rhan o'r ymgynghoriad hwn;

   - **Sylwadau ar achosion neu benderfyniadau unigol sydd gerbron Gweinidogion Cymru neu a wnaed ganddynt:** O ystyried rôl statudol Gweinidogion Cymru yn y broses gynllunio nid yw'n bosibl iddynt hwy, nac unrhyw un arall yn Llywodraeth Cymru, wneud sylwadau ar benderfyniad y maent yn rhan ohono, neu y gallent fod yn rhan ohono. Gallai hynny niweidio sefyllfa Llywodraeth Cymru.

- **Materion y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad:** Lle mae sylwadau wedi'u gwneud sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn ond cawsant eu gwneud mewn perthynas â materion y tu allan i gwmpas y cwestiwn, rydym wedi gwneud pob ymdrech i'w crynhoi o dan y cwestiwn cywir. Fodd bynnag, nid ydym wedi ymdrin â chwestiynau y tu allan i gylch gwaith yr ymgynghoriad hwn;

- **Sylwadau sy'n dehongli'r polisi arfaethedig a'r ddeddfwriaeth bresennol yn anghywir:** Mae ymatebion wedi dod i law sy'n gofyn am newidiadau i bolisi sydd, mewn gwirionedd, naill ai'n adlewyrchu'r bwriadau a nodwyd yn y papur ymgynghori neu'n adlewyrchu'r ddeddfwriaeth bresennol na fydd yn cael ei newid.

**Ymatebion**

7. Ar 13 Mai 2024, cafodd dros 200 o randdeiliaid, gan gynnwys unigolion a sefydliadau, eu hysbysu drwy e-bost fod y papur ymgynghori wedi'i gyhoeddi. Lluniwyd y rhestr hon o randdeiliaid o'r rhestr ymgynghori graidd a ddelir gan Gyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru, yn ogystal â rhestr ymgynghori benodol a ddelir gan dîm y Bil Cydsynio Seilwaith. Roedd hyn yn cynnwys pob awdurdod lleol yng Nghymru, cyrff cyhoeddus, grwpiau â buddiant arbennig a grwpiau eraill. Roedd yr ymgynghoriad ar gael ar wefan ymgyngoriadau Llywodraeth Cymru.

8. Cafwyd 83 o ymatebion i'r ymgynghoriad ac rydym yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael eu darllen a'u hystyried fel rhan o'r dadansoddiad hwn.

9. Darparwyd y cwestiynau fel atodiad i'r ddogfen ymgynghori ac ar wahân fel ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar wefan ymgyngoriadau Llywodraeth Cymru. Gofynnwyd i'r ymatebwyr neilltuo eu hunain i un o chwe grŵp eang o ymatebwyr. Mae Tabl 1 isod yn dangos y dadansoddiad o'r ymatebwyr.

| **Tabl 1 – Dadansoddiad o'r Ymatebwyr** | | |
|---|---|---|
| **Categori** | **Nifer** | **% o'r cyfanswm** |
| Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio | 12 | 14% |
| Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 3 | 3% |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 5 | 6% |
| Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 7 | 9% |
| Y Sector Gwirfoddol | 12 | 15% |
| Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 44 | 53% |
| **Cyfanswm** | **83** | |

10. Roedd cwestiynau 1 a 2 yn yr ymgynghoriad yn gofyn cwestiynau polisi-benodol, gyda chwestiynau 3 a 4 yn ymwneud yn benodol â'r effaith bosibl (cadarnhaol neu negyddol) y gall y cynigion ei chael ar y Gymraeg.

11. Ceir trosolwg o'r ymatebion fel rhan o'r dadansoddiad i bob cwestiwn yn adran 3 o'r ddogfen hon. Pan na wnaeth ymatebwyr nodi cwestiwn penodol, cafodd y rhain eu hystyried a'u cofnodi yn erbyn y cwestiwn mwyaf priodol.

| **Tabl 2: Cwestiynau'r Ymgynghoriad** | |
|---|---|
| **C1** | Pa ofynion y dylid eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau bod y gymuned yn chwarae mwy o ran yn y broses gydsynio, gan sicrhau proses ymgynghori gymesur ar gyfer pob math o ddatblygiad a gwmpesir gan y Bil? |
| **C2** | A oes gennych unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud neu dystiolaeth i'w chyflwyno mewn perthynas â sut y gellir gwella'r ffordd y caiff y gymuned a rhanddeiliaid eu cynnwys yn y broses o gydsynio i seilwaith, neu unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwelliannau? |
| **C3** | Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai gofynion ymgynghori cyn ymgeisio fel rhan o'r broses o gydsynio i seilwaith arfaethedig yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth yn eich barn chi fyddai'r effeithiau hynny? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol? |
| **C4** | Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r polisi arfaethedig ar gyfer gofynion ymgynghori cyn ymgeisio fel rhan o'r Bil Seilwaith (Cymru) gael ei lunio neu ei newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. |

**Crynodeb o'r ymatebion**

| C1 | Pa ofynion y dylid eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau bod y gymuned yn chwarae mwy o ran yn y broses gydsynio, gan sicrhau proses ymgynghori gymesur ar gyfer pob math o ddatblygiad a gwmpesir gan y Bil? |
|---|---|

Crynodeb o'r ymatebion

12. Ar y cyfan, y teimlad a fynegwyd gan ymatebwyr yw bod angen i unrhyw ymgyngoriadau a gynhelir fel rhan o'r broses o gydsynio i seilwaith fod yn ddilys ac yn ystyrlon. Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos ei bod yn broses lle mae datblygwyr yn dweud wrth gymunedau a rhanddeiliaid ac yn eu hysbysu, yn hytrach na gwrando ar sylwadau a fynegir yn ystod digwyddiadau ymgynghori a'u hystyried.

13. Yn yr un modd, nododd ymatebydd o'r sector gwirfoddol fod angen gwneud mwy i annog ymgysylltu ac ymgynghori sy'n mynd y tu hwnt i unrhyw ofynion sylfaenol statudol.

Amseriad ymgyngoriadau a gweithgarwch ymgysylltu

14. Mynegwyd rhai pryderon gan ymatebwyr bod ymgyngoriadau a gweithgarwch ymgysylltu yn digwydd yn rhy hwyr yn y broses yn aml, yn enwedig pan fydd datblygwyr yn ymgynghori ar geisiadau drafft llawn. O ganlyniad, nodwyd bod cynlluniau arfaethedig wedi cyrraedd cam rhy bell pan ddaw'n amser ymgynghori a bod datblygwyr yn gyndyn o wneud newidiadau.

15. Fodd bynnag, cafwyd safbwyntiau amgen gan rai ymatebwyr yn nodi y dylai ymgyngoriadau gynnwys pob elfen o gynnig ac y dylent fod mor fanwl â phosibl er mwyn sicrhau y gall cymunedau ddeall yr effeithiau llawn.

16. Nododd sawl ymatebydd hefyd y dylai ymgyngoriadau ddechrau'n gynharach yn y broses gydsynio ac y dylent fod yn iteraidd fel bod cymunedau yn cael mwy o gyfleoedd i ymgysylltu ac fel y gallant chwarae rôl fwy weithredol yn y broses o lunio cynigion datblygu.

Gyda phwy y dylid ymgynghori

17. Cafwyd nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad o sectorau amrywiol o ran gyda phwy y dylid ceisio ymgysylltu mewn ymgyngoriadau cyn ymgeisio.

18. Nododd dau ymatebydd y dylai Cymru gyfan allu cymryd rhan mewn ymgyngoriadau, ac awgrymodd dau ymatebydd arall o'r adran fusnes y dylai

gweithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori hefyd gynnwys Aelodau perthnasol o'r Senedd, Aelodau Seneddol a chynghorwyr lleol er mwyn helpu i hysbysebu digwyddiadau ymgynghori a dosbarthu gwybodaeth i'w cymunedau.

19. Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol gael mwy o rôl yn y broses ymgynghori hefyd, gan nodi y gellid neilltuo swyddogion dynodedig i ddatblygiad penodol er mwyn sicrhau bod deialog barhaus a chyson ag ymgeiswyr.

<u>Y defnydd o dechnolegau digidol</u>

20. Nododd nifer o ymatebwyr ym mhob sector y dylai datblygwyr geisio mabwysiadu dulliau ymgynghori ac ymgysylltu modern, megis defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i ddenu grwpiau cymunedol lleol a hwyluso cyfranogiad amrywiol.

21. Hefyd, nododd un ymatebydd y byddai ehangu strategaethau ymgysylltu sy'n cynnwys sianeli cyfathrebu digidol yn galluogi unigolion i gofrestru eu diddordeb a chael hysbysiadau am ddigwyddiadau ymgynghori perthnasol drwy e-bost a negeseuon testun.

22. Yn yr un modd, dywedodd ymatebydd arall o'r sector busnes y gallai defnyddio technolegau o'r fath wella lefelau ymgysylltu ymhlith pobl iau, yn ogystal â chyflwyno ymgyngoriadau ac arddangosfeydd mewn ysgolion lleol.

23. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod gwerth o hyd i ddulliau traddodiadol o roi cyhoeddusrwydd a hysbysu, megis hysbysiadau safle a chyhoeddi hysbysiadau mewn papurau newydd lleol, er y gallai dull hybrid fod yn fwy effeithiol ac arwain at fwy o ymgysylltu mewn ymgyngoriadau.

<u>Deddfu ar gyfer gofynion ymgynghori cyn ymgeisio</u>

24. Nododd pedwar ymatebydd y dylai ymgyngoriadau cyn ymgeisio fod yn ddarostyngedig i ofynion sylfaenol penodol, megis y rhai a nodir yn y trefniadau ar gyfer datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol a phrosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol.

25. Fodd bynnag, nododd ymatebwyr o'r sector busnes a chorff proffesiynol na ddylai unrhyw ofynion a osodir ar ymgyngoriadau cyn ymgeisio fod yn rhy ragnodol er mwyn rhoi hyblygrwydd a defnyddio enghreifftiau o arferion gorau drwy ganllaw.

26. Roedd galw i gyflwyno gofyniad i ddatblygwyr lunio datganiad o ymgynghoriad cymunedol hefyd, yn debyg i Ddeddf Cynllunio 2008, a fyddai'n rhoi eglurder i gymunedau a rhanddeiliaid eraill. Fodd bynnag, roedd un ymatebydd yn teimlo bod hyn yn rhy ffurfiol a mynegodd y byddai'n ffafrio cynllun ymgynghori mwy anffurfiol.

Argymhellion penodol

27. Cafwyd sawl argymhelliad penodol mewn ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch sut y dylid ymgysylltu ac ymgynghori â'r gymuned a pha ddulliau y gellid eu defnyddio i sicrhau y rhoddir cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:

- Cyflwyno gofyniad i hysbysu pawb o fewn cwmpas penodol bod datblygiad arfaethedig (awgrymwyd cwmpas o 2km);
- Dylai fod yn ofynnol i ddatblygwyr gynnwys cwestiynau a rag-gymeradwywyd mewn ymgyngoriadau er mwyn osgoi cael cwestiynau amwys neu awgrymog gyda'r nod o gasglu safbwyntiau cadarnhaol;
- Gofyniad i ddatblygwyr gynnal o leiaf un digwyddiad wyneb yn wyneb;
- Defnyddio porth Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru i hysbysebu digwyddiadau ymgynghori a rhoi cyfle i aelodau'r cyhoedd gofrestru i gael gwybod am ddigwyddiadau cyfagos;
- Sicrhau bod deddfwriaeth yn nodi bod yn rhaid i ddatblygwyr ddilyn barn y mwyafrif;
- Ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr lunio datganiad am yr effaith ar y gymuned ac adroddiad ynghylch buddion cydweithredol;
- Dosbarthu holiaduron i unigolion neu aelwydydd er mwyn sicrhau bod ymwybyddiaeth ehangach yn y gymuned;
- Cynnal nifer o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb pan fydd datblygiad arfaethedig yn cwmpasu ardal fawr er mwyn hwyluso hygyrchedd;
- Sicrhau bod datblygwyr yn rhoi tystiolaeth o'r ffordd yr ymgysylltwyd â chymunedau mewn ffordd ystyrlon.

Sylwadau eraill

28. Arweiniodd yr ymgynghoriad at nifer mawr o ymatebion ynghylch sut yr eir ati i ymgysylltu ac ymgynghori mewn perthynas â phrosiect datblygu penodol hefyd a sut y gellid gwella hyn. Roedd yr ymatebion yn cynnwys sylwadau megis:

- Dylai cymunedau lleol fod â'r hawl i wrthod datblygiad arfaethedig os bydd yn andwyol i'r ardal, dylent allu mynnu bod mesurau lliniaru yn cael eu cynnwys, neu fynnu bod technolegau neu fethodolegau penodol yn cael eu defnyddio;
- Gofyniad i Awdurdodau Cynllunio Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, cynghorwyr lleol a chymunedau gael eu cynnwys yn y broses gwneud penderfyniadau;
- Bod gan gymunedau lleol y gallu i fynnu nad yw datblygiadau yn effeithio ar gynefinoedd na bioamrywiaeth leol;
- Dylai ymgyngoriadau cymunedol sicrhau y cydymffurfir yn llawn ag 'egwyddorion Gunning' ac ni ddylid eu hystyried fel ymarfer 'ticio blwch' yn unig;
- Ni ddylai datblygwyr gynnal eu hymgynghoriad eu hunain er mwyn osgoi unrhyw duedd.

| C2 | A oes gennych unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud neu dystiolaeth i'w chyflwyno mewn perthynas â sut y gellir gwella'r ffordd y caiff y gymuned a rhanddeiliaid eu cynnwys yn y broses o gydsynio i seilwaith, neu unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwelliannau? |
|---|---|

Gyda phwy y dylid ymgynghori

29. Roedd cytundeb cyffredinol ymhlith yr ymatebwyr y dylai gweithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu cyn ymgeisio â chymunedau a rhanddeiliaid eraill geisio cwmpasu cynifer o bobl â phosibl.

30. Yn benodol, awgrymodd un Awdurdod Cynllunio Lleol na ddylid cyfyngu ymgyngoriadau i Gymru ac y dylid cynnwys y rhai sydd y tu hwnt i ffiniau Cymru hefyd lle gallai datblygiad arfaethedig effeithio ar gymunedau.

31. Hefyd, dywedodd ymatebydd o'r sector busnes y dylai datblygwyr gynnwys ymdrechion allgymorth wedi'u targedu er mwyn ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu er mwyn cydnabod dewisiadau amrywiol.

32. Yn yr un modd, esboniodd dau ymatebydd y dylai datblygwyr ymgysylltu mwy ag Awdurdodau Cynllunio Lleol a chynghorau cymuned er mwyn nodi grwpiau cymunedol lleol gan fod ganddynt wybodaeth werthfawr am y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Byddai hyn yn helpu i gyflawni dull mwy cyflawn o ymgynghori ac ymgysylltu.

Gwybodaeth y dylid ymgynghori yn ei chylch

33. Awgrymodd sawl ymatebydd o amrywiaeth o sectorau fod elfennau penodol y dylid ymgynghori yn eu cylch, lle y bo'n berthnasol. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Unrhyw asesiadau ecolegol sydd wedi cael eu cynnal neu a fydd yn cael eu cynnal;
- Asesiad risg llywio;
- Trwydded forol dybiedig;
- Cais llawn, drafft.

34. Yn ogystal, esboniodd ymatebydd o'r sector gwirfoddol fod angen gwneud mwy i sicrhau bod gwybodaeth ategol a dogfennaeth yr ymgynghorir yn eu cylch yn ddigonol. Yn yr un modd, nododd tri ymatebydd arall y dylai deunyddiau ymgynghori fod yn hawdd eu defnyddio ac yn annhechnegol er mwyn helpu trigolion cymunedau i'w deall.

35. Hefyd, dywedodd unigolyn na ddylai datblygwyr ganolbwyntio ar un opsiwn datblygu mewn ymgyngoriadau ond, yn hytrach, y dylent ymgynghori ar bob

opsiwn posibl sydd wedi'i brisio'n llawn. Byddai hyn yn galluogi cymunedau a rhanddeiliaid eraill i ddewis pa ddatblygiad arfaethedig fyddai fwyaf addas i'w hardal.

36. At hynny, awgrymodd ymatebydd arall y dylai ymgyngoriadau â chymunedau ganolbwyntio ar ddatblygiad arfaethedig terfynol a chyflawn yn hytrach na lled syniad gan y bydd hyn yn rhoi mwy o sicrwydd i gymunedau lleol.

Y defnydd o dechnolegau digidol

37. Gwnaeth un busnes sylwadau ar effeithiolrwydd dull hybrid o ymgynghori, gan gynnwys defnyddio rhith-arddangosfeydd a allai ddenu mwy o gyfranogwyr.

38. Yn yr un modd, awgrymodd corff proffesiynol fod cyfleoedd i dechnoleg ddigidol gael ei defnyddio i nodi unigolion y gallai datblygiad arfaethedig effeithio arnynt ac y byddai'r dulliau hyn yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.

39. Cyflwynwyd nifer o sylwadau yn ymwneud yn benodol â gwefannau a grëwyd gan ddatblygwyr fel rhan o'u gweithgarwch ymgysylltu cyn ymgeisio. Dywedodd un busnes y dylai gwefannau fod yn haws eu defnyddio, a nododd corff proffesiynol y dylai tudalennau gwe gynnwys map rhyngweithiol.

40. Yn yr un modd, awgrymodd ymatebydd o'r sector gwirfoddol y dylid cyflwyno cofrestr genedlaethol ar gyfer y broses gydsynio sy'n cynnwys dolenni i wefannau prosiectau.

Canllaw

41. Roedd nifer o ymatebwyr yn cefnogi'r syniad o gyflwyno canllaw clir i helpu i gefnogi datblygwyr pan fyddant yn mynd ati i ymgynghori cyn ymgeisio. Bydd hyn yn helpu i annog datblygwyr i fynd y tu hwnt i unrhyw ofynion sylfaenol statudol y gellir eu pennu ar gyfer gweithgareddau ymgynghori.

Argymhellion ac arsylwadau penodol

42. Cafwyd nifer o argymhellion ac arsylwadau penodol mewn ymatebion i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Pryderon bod y prosesau cydsynio presennol yn osgoi camau i graffu ar brosesau cynllunio strategol ac mai dim ond manylion dibwys a gaiff eu trafod mewn ymgyngoriadau ynghylch datblygiadau arfaethedig;
- Gan fod technegau cyfathrebu'n datblygu'n barhaus, efallai na fydd yn briodol pennu gofynion ymgynghori penodol mewn deddfwriaeth;
- Dim ond gyda'r adnoddau a'r sgiliau i'w gefnogi y gellir ymgysylltu yn effeithiol;

- Dylai cymunedau a rhanddeiliaid eraill gael y cyfle i roi gwybod am weithgareddau anfoesegol neu anghyfreithlon gan ddatblygwyr;
- Sefydlu grwpiau buddiant thematig er mwyn rhannu gwybodaeth ac arbenigedd;
- Cyfyngu ar newidiadau dylunio ar ôl i geisiadau gael eu cyflwyno er mwyn annog newidiadau o'r fath ar y cam cyn ymgeisio;
- Dylai fod yn ofynnol i ddatblygwyr sicrhau bod uwch-gynrychiolwyr yn bresennol mewn digwyddiadau cyhoeddus;
- Ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr gael rhif ffôn a chyfeiriad e-bost sy'n ymwneud yn benodol â datblygiad.

Sylwadau eraill

43. Yn debyg i gwestiwn 1, arweiniodd y cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad at nifer mawr o ymatebion ynghylch sut yr eir ati i ymgysylltu ac ymgynghori mewn perthynas â phrosiect datblygu penodol a sut y gellid gwella hyn. Roedd yr ymatebion yn cynnwys y sylwadau canlynol:

- Mae angen gwneud mwy i sicrhau bod sylwadau cymunedau yn cael eu clywed a'u hystyried, yn hytrach na bod ymgynghoriad yn cael ei drin fel ymarfer ‘ticio blwch’;
- Ni ddylai cymunedau orfod dioddef dirywiad economaidd o ganlyniad i brosiectau seilwaith;
- Ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr ymateb yn gadarnhaol i ddymuniadau lleol, oni fyddant yn gallu cyflwyno tystiolaeth fanwl a chymhellol o ran pam na fyddai hynny'n bosibl.

**Ymateb y Llywodraeth**

44. Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gan ymatebwyr yng nghwestiynau 1 a 2 mewn perthynas â'r trefniadau presennol ar gyfer ymgynghori cyn ymgeisio ac rydym yn cytuno y dylid ymgynghori ar gam cynnar, ymgysylltu â chynifer o bobl â phosibl a defnyddio amrywiaeth o ddulliau a thechnegau er mwyn cyrraedd cynulleidfa eang.

45. Cafwyd nifer o ymatebion a oedd yn argymell gofynion sylfaenol statudol mewn perthynas â gweithgareddau ymgynghori cyn ymgeisio ac y gellid o bosibl eu rhoi ar waith drwy is-ddeddfwriaeth. Er enghraifft, pennu'r gofyniad i ddatblygwyr gynnal o leiaf un digwyddiad wyneb yn wyneb.

46. Byddwn yn ystyried y rhain yn fanylach er mwyn pennu a fyddent yn briodol ac yn gymesur ar gyfer yr holl ddatblygiadau posibl a gwmpesir gan Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024.

47. Fodd bynnag, dim ond awgrymiadau neu gynigion ar gyfer gofynion sylfaenol sy'n ymwneud ag ymgynghori cyn ymgeisio sy'n addas i'w cyflawni drwy ddeddfwriaeth yr ydym yn ystyried eu datblygu. Gellir cynnwys rhai syniadau

mewn canllawiau fel arferion gorau, fel bod modd eu teilwra yn unol â maint, graddfa ac effaith y prosiect penodol.

**Y camau nesaf**

48. Mae'r awgrymiadau hyn wedi bod yn werthfawr a bydd cynigion ar gyfer ymgynghori cyn ymgeisio a gaiff eu llywio gan yr ymatebion hyn yn cael eu cynnwys mewn papur ymgynghori y bwriedir ei gyhoeddi yn yr hydref.

| | |
|---|---|
| **C3** | Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai gofynion ymgynghori cyn ymgeisio fel rhan o'r broses o gydsynio i seilwaith arfaethedig yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth yn eich barn chi fyddai'r effeithiau hynny? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol? |

<u>Trosolwg</u>

49. Ni wnaeth y mwyafrif o'r ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad. O blith y rhai a ymatebodd, y farn gyffredin oedd y dylid cynnal ymgyngoriadau cyn ymgeisio yn ddwyieithog, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Roedd hyn yn cynnwys y dulliau a ddefnyddiwyd i hysbysebu digwyddiadau ymgynghori, unrhyw ddogfennaeth a ddefnyddiwyd fel rhan o ymarfer ymgynghori (ac eithrio dogfennau technegol) a sicrhau bod datblygwyr yn darparu cynrychiolydd sy'n siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd ymgynghori.

50. Hefyd, awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylid darparu canllaw i ddatblygwyr er mwyn egluro pa ddeunyddiau y dylid eu cyfieithu fel rhan o'u gweithgareddau ymgynghori cyn ymgeisio.

51. Yn gyffredinol, penderfynwyd na fyddai llawer o effaith ar y Gymraeg, os o gwbl, pe bai'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu darparu fel opsiynau i gymunedau a rhanddeiliaid eraill gymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau ymgynghori.

| | |
|---|---|
| **C4** | Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r polisi arfaethedig ar gyfer gofynion ymgynghori cyn ymgeisio fel rhan o'r Bil Seilwaith (Cymru) gael ei lunio neu ei newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. |

<u>Trosolwg</u>

52. Yn debyg i gwestiwn 3 yn y papur ymgynghori, ni wnaeth y mwyafrif o'r ymatebwyr unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn.

53. O blith y rhai a ymatebodd, roedd y sylwadau yn debyg i'r rhai a gyflwynwyd mewn ymateb i gwestiwn 3 i raddau helaeth, megis sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg a darparu gwybodaeth a dogfennaeth ddwyieithog.

54. Fodd bynnag, dywedodd tri ymatebydd, er y dylid annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, na ddylid gorfodi hyn. Yn hytrach, dylid darparu mwy o ganllawiau a hyrwyddo arferion gorau o ran defnyddio'r Gymraeg, wrth gydnabod yr angen i fod yn ymarferol ac yn hyblyg pan fo angen.

55. Yn yr un modd, awgrymodd ymatebydd arall y dylai datblygwyr ymchwilio i'r gymuned y maent yn ceisio ymgysylltu â hi, a dod i'w hadnabod, er mwyn pennu nifer cyffredinol y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal a theilwra eu gweithgareddau ymgynghori yn unol â hynny.

**Ymateb y Llywodraeth**

56. Mewn ymateb i gwestiynau 3 a 4, rydym yn cytuno na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ac y dylai cymunedau a rhanddeiliaid eraill allu cymryd rhan yn y broses yn Gymraeg, os mai dyna yw eu dewis iaith.

57. Fodd bynnag, yn hytrach na chynnwys gofynion mewn deddfwriaeth sy'n gorfodi datblygwyr i gynnal gweithgareddau ymgynghori cyn ymgeisio yn Gymraeg, ystyriwn ei bod yn fwy priodol a chymesur rhoi mwy o fanylion mewn canllaw.

58. Bydd hyn yn rhoi'r hyblygrwydd i ddatblygwyr deilwra eu gweithgareddau ymgysylltu yn seiliedig ar y cymunedau a'r rhanddeiliaid y maent yn ymgynghori â nhw mewn ffordd fwy ymarferol.

## Y camau nesaf

59. Byddwn yn ystyried sut y gellir defnyddio canllawiau i sicrhau arferion gorau o ran defnyddio'r Gymraeg i ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid eraill ar y cam cyn ymgeisio fel rhan o'r broses o roi Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 ar waith.